# Y Bwrdd Rheoli

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Ystafell Gynadledda 4B – Tŷ Hywel |
| Dyddiad: | Dydd Llun, 2 Tachwedd 2015 |
| Amser: | 14.45 – 16.15 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: MB (13-15)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc (Cadeirydd)<br>Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu<br>Bedwyr Jones, Pennaeth TGCh)<br>Elisabeth Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Mair Parry-Jones, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi<br>Kathryn Potter, Pennaeth Ymchwil<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Christopher Warner, Pennaeth y Gwasanaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaethol<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau |
| Staff y Pwyllgor: | Liz Jardine (Ysgrifenyddiaeth) |
| Eraill yn bresennol: | Leanne Baker, Pennaeth Dros Dro Gweithrediadau Adnoddau Dynol, Iechyd Corfforaethol a Recriwtio<br>Wayne Cowley, Rheolwr Prosiect - System Gyflogau ac Adnoddau Dynol |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nicola Callow (Cyfarwyddwr Cyllid), Mike Snook (Pennaeth Pobl a Lleoedd) a Dave Tosh (Cyfarwyddwr Adnoddau'r Cynulliad).

1.2 Datganodd Chris Warner fuddiant yn y mater o strategaeth tâl yn y dyfodol, gan y byddai'n arwain ar drafodaethau cyflog ar gyfer yr FDA.

## 2 Nodyn cyfathrebu i'r staff – Adrian Crompton

2.1 Cytunodd Adrian Crompton i ddrafftio nodyn ar drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.

## 3 Cofnodion o'r cyfarfod ar 5 Hydref - i'w dosbarthu drwy e-bost.

3.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref yn gofnod cywir.

## 4 Cyfarfod Strategaeth ac Adnoddau - Adnoddau Dynol

4.1 Roedd y Bwrdd Rheoli wedi cytuno i neilltuo'r cyfarfod i drafod materion Adnoddau Dynol, wedi'u harwain gan Lowri Williams. Roedd Lowri wedi cyfarfod ag aelodau'r Bwrdd yn unigol i drafod pryderon, a godwyd yn ystod y cylch cynllunio capasiti diwethaf, bod polisïau'r gweithlu yn creu pwysau ar y gallu i gyflawni busnes. Roedd Adnoddau Dynol wedi datblygu cynigion i ymdrin â hyn a hefyd i ymateb i sylwadau gan staff a oedd wedi eu casglu drwy'r arolwg staff a'r archwiliad recriwtio.

## 5 Fframwaith a pholisïau recriwtio a phenodi

5.1 Cyflwynodd Leanne Baker bapur yn amlinellu cynigion ar gyfer newidiadau trefniadol i nifer o bolisïau sy'n gysylltiedig â'r Polisi Recriwtio, gan gynnwys lwfansau, secondiadau, swyddi blaenoriaeth a pholisïau tâl a gwobrwyo.

5.2 Pwrpas y Polisi Recriwtio oedd sicrhau bod y Comisiwn yn gallu recriwtio a chadw'r bobl yr oedd eu hangen arno i ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf i'r Cynulliad. Cafodd y newidiadau eu datblygu yn unol â'r egwyddorion recriwtio a gytunwyd ym mis Mawrth 2015 sef teilyngdod, tegwch a bod yn agored.

5.3 Yn benodol, trafododd y Bwrdd: rhesymoli talu lwfansau i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol; trefniadau ar gyfer secondiadau a throsglwyddiadau mewnol heb effeithio'n ddiangen ar gynllunio capasiti a chydweithwyr; y polisi ar swyddi blaenoriaeth i gefnogi gweithwyr heb swydd barhaol i ddychwelyd iddi; a'r dull o recriwtio'n barhaol i swyddi gwag.

5.4 Cytunodd y Bwrdd fod y polisïau yn gydbwysedd rhesymol o gysondeb a hyblygrwydd, yn amodol ar egluro rhai mân faterion.

5.5 Cytunodd y Bwrdd hefyd ei bod yn bwysig i graffu yn rheolaidd a herio penderfyniadau adnoddau a chydnabyddiaeth y cyd, er mwyn deall arferion gwirioneddol mewn gwahanol rannau o'r sefydliad a sicrhau bod polisïau yn parhau i fod yn ymarferol.

5.6 Byddai'r cynigion yn cael eu trafod yn fanwl gyda'r Undebau Llafur.

5.7 Camau:

- Lowri Williams i gyfarfod â'r Penaethiaid ar wahân i edrych eto ar y pwyntiau manwl a godwyd; a'r
- Bwrdd Rheoli i dderbyn gwybodaeth reoli reolaidd.

## 6 Strategaeth tâl ar gyfer y dyfodol

6.1 Amlinellodd Wayne Cowley ddull posibl i dâl staff pan fydd y cytundeb presennol yn dod i ben ym mis Hydref 2016. Bu'r Bwrdd yn trafod y goblygiadau a gofynnwyd i ragor o waith gael ei wneud i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng newid cadarnhaol a fforddiadwyedd.

## 7 Cynllunio capasiti

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli ar 23 Tachwedd yn cael ei neilltuo ar gyfer y drafodaeth ar gynllunio capasiti ac adnoddau. Byddai Pecyn o ddata Adnoddau Dynol ar gael er gwybodaeth i'r Bwrdd cyn y cyfarfod.

7.2 Camau: Aelodau'r Bwrdd Rheoli i gysylltu â Lowri Williams os oedd angen cymorth pellach i baratoi ar gyfer y cyfarfod.

## 8 Diweddariad ar ddangosfwrdd y Pumed Cynulliad

8.1 Derbyniodd y Bwrdd y dangosfwrdd diweddaraf yn dangos y gwaith sy'n mynd rhagddo, y materion allweddol a'r risgiau.

## 9 Unrhyw fater arall

9.1 Adroddiad Rheolaeth Ariannol – roedd yr adroddiad ar gyfer mis Hydref wedi cael ei baratoi a dywedodd Claire Clancy wrth y Bwrdd fod y rhagolwg diwedd blwyddyn ar hyn o bryd yn awgrymu tanwariant. Byddai'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn craffu ar y gyllideb yn fanwl yn ei gyfarfod nesaf ac yn gwneud penderfyniadau buddsoddi priodol.

9.2 Adolygiadau Perfformiad a Datblygu Rheolwyr – ar ddydd Gwener 30 Hydref, roedd 79% o'r staff wedi cwblhau eu hadolygiadau.

9.3 Gorchymyn etholiadau – dywedodd Non Gwilym fod y tystysgrifau a dderbyniwyd gan y Swyddogion Canlyniadau yn rhoi gwybod i'r Cynulliad am Aelodau etholedig ar adeg eu hethol, nawr yn gallu cael eu llofnodi a'u hanfon ymlaen yn electronig.

9.4 Diolchodd y Bwrdd i Lowri Williams a’i thîm am yr holl ymdrech a wnaed o ran y gwaith polisi a thâl a’r paratoadau ar gyfer y cyfarfod.

9.5 Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli ar 23 Tachwedd.